

Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – Crynodeb o'r Ymgynghoriad ynghylch Plant a Phobl Ifanc

Cynnig i sefydlu ysgolion newydd ar gyfer y ddwy  
Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf

28 Medi 2023 – 9 Tachwedd 2023



Cymunedau **Dysgu** Cynaliadwy   
Sustainable Communities for **Learning**



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Helo, fy enw i yw **Vision** a  
dyma fy nghi, **K9-2.1**  
Rydyn ni yma i drafod  
prosiect cyffrous gyda chi  
a hoffen ni glywed eich  
barn!



# Cyflwyniad

- Beth mae'r cyflwyniad yma yn ei gynnwys?

Mae Cyngor Caerffili yn awyddus i wella amodau'r ysgol i godi safonau a rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn.

Weithiau, gall ysgolion gael eu moderneiddio, eu trwsio, eu hadnewyddu neu eu hehangu, neu gellir hyd yn oed adeiladu ysgol newydd yn gyfan gwbl.





# Cyflwyniad

- Beth yw Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ?

Mae gan Gyngor Caerffili dîm ei hun sy'n gwneud cynnig am arian i fuddsoddi mewn ysgolion, fel y gwnaethon nhw ar gyfer:

- Ysgol Uwchradd Islwyn
- Idris Davies 3-18
- Ysgol Gymraeg Cwm Rhymni – Y Gwyndy
- Ysgol Trecelyn
- Ysgol Gyfun y Coed-duon
- Cae'r Drindod







# Cyflwyniad

- Enghreifftiau o'r hyn sydd wedi'i wneud



Mae'r lluniau hyn yn dangos rhai enghreifftiau o'r hyn sydd wedi'i wneud





# Cyflwyniad

- Beth yw Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy?


Mae £56.5 miliwn eisoes wedi'i wario ym Mand A y rhaglen rhwng 2014 a 2019. Byddai'r cynnig yn rhan o raglen Band B Newydd.

Mae Band B yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Ileihau nifer yr ysgolion sydd mewn cyflwr gwael
- gwneud yn siŵr bod gennym ni ysgolion o'r maint cywir, yn y lleoliadau cywir
- cynnig digon o leoedd i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg
- sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o ysgolion



Dyma lun o adeilad newydd **Ysgol Uwchradd Islwyn**, sef un o brosiectau Band A y Cyngor




Rhaid i'r Cyngor ddilyn deddfwriaeth Llywodraeth Cymru sef **Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018** os bydd am wneud unrhyw newidiadau i ysgol.

Mae'n rhaid i'r Cyngor ysgrifennu at nifer o grwpiau fel Rhieni, Penaethiaid a Staff i ddweud wrthyn nhw am yr hyn y maen nhw'n bwriadu ei wneud a chasglu barn.

**Mae angen i'r Cyngor hefyd gael eich barn am yr hyn rydyn ni'n ei gynnig ar gyfer eich ysgol oherwydd gallwch chi ein helpu ni i lunio'r hyn fydd yn digwydd.**

Mae llawer o wybodaeth y mae angen i ni ei chynhyrchu a'i rhoi ar ein gwefan.  
<https://www.trafodaeth.caerphilly.gov.uk/ysgol-y-lawnt-ac-ysgol-gynradd-rhymni-uchaf>



Mae sawl ffordd o roi eich barn i'r Cyngor

- Cwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein ar wefan y Cyngor
- Cwblhau'r ffurflen ymateb sydd wedi'i hatodi i'r Ddogfen Ymgynghori a'i dychwelyd i Dîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yng Nghaerffili
- Anfon eich sylwadau dros e-bost i Dîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yng Nghaerffili

Y ffordd hawsaf i chi yw cymryd **rhan yn y sesiwn hon a bydd eich athro yn rhoi adborth ar eich sylwadau.**

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad yma  
**Dydd Mercher 9 Tachwedd 2023**







# Y Cynnig

- Beth mae'r prosiect yn ei gynnig?

**Mae'r Cyngor yn cynnig gwneud y canlynol:**

## **Adleoli Ysgol Y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf**

*Ychydig o resymau pam y cynigir hyn:*

- Mae'r cynnig yn ceisio creu 2 ysgol Carbon Sero Net cynaliadwy newydd ar safle unigol gyda rhai cyfleusterau wedi'u rhannu, e.e. cegin, mynedfa ar gyfer Ysgol y Lawnt ac Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf a'r gymuned ehangach.
- Bydd y ddwy ysgol yn parhau i ddarparu addysg gynradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ac yn parhau fel endidau ar wahân, wedi'u lleoli ar y safle deuddiben newydd.
- Mae'r cynnig yn ceisio darparu ar gyfer disgyblion yn y ddwy ysgol rhwng 3 ac 11 oed o fewn eu dalgylchoedd presennol gydag adeilad cynaliadwy newydd sy'n addas i'r diben ac o'r radd flaenaf.



Mae eich barn chi'n bwysig ac rydyn ni'n croesawu unrhyw sylwadau p'un a ydych chi'n cefnogi ein cynnig, yn erbyn ein cynnig, neu'n ansicr y naill ffordd neu'r llall.

## **Dyma cyfle i chi ofyn cwestiynau!**

- A ydych chi'n cytuno â'r hyn rydyn ni'n bwriadu ei wneud?
- Oes gennych chi unrhyw syniadau am yr hyn yr hoffech chi ei gael mewn ysgol newydd?
- Oes gennych chi unrhyw syniadau eraill yr hoffech chi i ni eu hystyried?

Bydd eich sylwadau chi'n cael eu hychwanegu at Adroddiad y bydd pawb yn gallu ei weld a bydd yn helpu'r Cyngor i benderfynu beth i'w wneud nesaf.



# Rhagor o Wybodaeth

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad yma  
Dydd Mercher 9 Tachwedd 2023**

**Ymgynghoriad 'Ysgol Y Lawnt ac  
Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf'**

d/o Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu  
Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili  
Tŷ Penallta  
Parc Tredomen  
Ystrad Mynach  
CF82 7PG

[ysgolionyr21ainganrif@caerffili.gov.uk](mailto:ysgolionyr21ainganrif@caerffili.gov.uk)

<https://www.caerffili.gov.uk//cymunedau-dysgu-cynaliadwy>

